Cynllun Gweithredu Strategaeth Golwg Cymru

2014 – 2018

UK Vision Strategy

Gyda diolch i bawb sydd wedi cyfrannu at y gwaith o ddatblygu'r strategaeth hon

Access Design Solutions UK Ltd

BridgeVIS

Coleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol Cymru

Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru

Cŵn Tywys Cymru

Cynghrair Trafnidiaeth De-ddwyrain Cymru

Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf

Cyngor Cymru i'r Deillion

Cymdeithas Feddygol Prydain Cymru

Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

Cymdeithas Orthoptig Prydain ac Iwerddon

DeafBlind Cymru

Fforwm Swyddogion Adsefydlu Cymru

Llywodraeth Cymru

Optometreg Cymru

RNIB Cymru

Sefydliad y Deillion Caerdydd

Sight Cymru

Nodyn ar strwythur y ddogfen hon

Mae'r cyhoeddiad hwn yn nodi nodau ac amcanion Grŵp Gweithredu Strategaeth Golwg Cymru mewn perthynas â thri maes canlyniadau Strategaeth Golwg y DU. Mae hefyd yn cynnwys amcanion Cynllun Cyflawni Cymru ar gyfer Gofal Iechyd Llygaid Llywodraeth Cymru sy'n ymwneud â nodau Grŵp Gweithredu Strategaeth Golwg Cymru. Yn olaf, mae'n rhestru'r camau gweithredu y bydd aelodau Grŵp Gweithredu Strategaeth Golwg Cymru yn eu cymryd eleni er mwyn dechrau mynd ar drywydd ein hamcanion. Caiff y rhain eu hadolygu ar ddiwedd 2014, a chaiff cynllun gweithredu diwygiedig ei ddatblygu ar gyfer ail flwyddyn y cynllun. Bydd hwn ar gael ar wefan Strategaeth Golwg y DU – **www.vision2020uk.org.uk/ukvisionstrategy/** – neu ar gais.

Cynnwys

Rhagair 4

Cyflwyniad 5

Canlyniad Un – Mae pawb yng Nghymru yn gofalu am eu llygaid a'u golwg 7

Canlyniad Dau – Mae pawb sydd â chyflwr llygaid yn cael triniaeth amserol ac, os bydd unigolion yn colli eu golwg yn barhaol, mae gwasanaethau a chymorth cynnar a phriodol ar gael ac sy'n hygyrch i bawb 14

Canlyniad Tri – Cymdeithas y gall pobl sy'n colli eu golwg gyfranogi'n llawn ynddi 25

Rhestr talfyriadau 37

UK Vision Strategy

Clawr llun chwith: zeljkodan/Shutterstock.com

Rhagair

Mae colli golwg ar frig yr agenda yng Nghymru ac o ganlyniad, mae Cymru wedi ennill enw da ym maes datblygu a darparu gwasanaethau gofal iechyd llygaid. Fodd bynnag, bydd y galw am wasanaethau gofal llygaid yn parhau i gynyddu wrth i bobl fyw'n hirach. Mae hyn yn cyflwyno heriau i bartneriaid ym maes iechyd, gofal cymdeithasol a phartneriaid eraill wrth gynllunio a chydgysylltu'r broses o ddarparu gwasanaethau.

Mae'n hollbwysig ein bod yn mynd i'r afael â'r heriau sydd o'n blaenau mewn ffordd gydweithredol ac mae Grŵp Gweithredu Strategaeth Golwg Cymru eisoes wedi gwneud cynnydd gwych yn y flwyddyn gyntaf ers ei sefydlu, gan ddwyn ynghyd bartneriaid o'r sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector. Mae'r Cynllun Gweithredu diwygiedig ar gyfer 2014 i 2019 yn adeiladu ar ei lwyddiant.

Mae angen i bobl wybod ble y gallant gael gafael ar wasanaethau, gofal a chymorth yn eu hardal leol a bod yn siŵr bod amcanion a rennir yng Nghymru o ran sut y gallwn fel cenedl wella iechyd llygaid a diwallu anghenion pobl sy'n colli eu golwg yn well.

Rwy'n falch o weld bod nodau Strategaeth Golwg ddiwygiedig Cymru yn ategu Law yn Llaw at Iechyd: Cynllun Cyflawni Cymru ar gyfer Gofal Iechyd a Llygaid Llywodraeth Cymru a Pholisi GIG Cymru a chroesawaf y gwaith pwysig hwn.

Dr Ruth Hussey OBE

Cyflwyniad

Mae dros 100,000 o bobl yng Nghymru yn colli eu golwg a thros y 25 mlynedd nesaf, disgwylir i nifer y bobl sy'n colli eu golwg ddyblu.

Gellir osgoi 50 y cant o'r achosion o golli golwg ac mae'n galonogol bod Llywodraeth Cymru, ers i Strategaeth Golwg gyntaf Cymru gael ei chyhoeddi yn 2000, wedi cyhoeddi ei Chynllun Cyflawni ar gyfer Gofal Iechyd Llygaid ac wedi gwneud iechyd llygaid yn flaenoriaeth ym maes iechyd y cyhoedd. Mae gan y GIG, Byrddau Iechyd a'r gymdeithas ehangach rôl ganolog i'w chwarae wrth atal achosion o golli golwg y gellir eu hosgoi drwy wella iechyd llygaid a sicrhau y gellir cael gafael ar wasanaethau.

Yn yr un modd, o ystyried y ganran gynyddol o'r boblogaeth sy'n colli ei golwg, mae gwella'r gallu i gael gafael ar gymorth a sicrhau bod pobl ddall a rhannol ddall yn gallu manteisio ar yr un cyfleoedd â'u cyfoedion sy'n gallu gweld yn hanfodol bwysig.

Mae Strategaeth Golwg Cymru yn dod â sefydliadau sydd â diddordeb mewn iechyd llygaid a cholli golwg at ei gilydd er mwyn cytuno ar gyfres o nodau a rennir a nodi sut y gellir cyflawni'r rhain dros y pedair blynedd nesaf.

Cefndir

Lansiwyd Strategaeth Golwg y DU yn 2008 mewn ymateb i gynnig a basiwyd gan Gynulliad Iechyd y Byd yn 2003 y dylid datblygu a gweithredu cynlluniau i fynd i'r afael â nam ar y golwg (a elwir bellach yn gynlluniau Vision 2020). Aeth pob un o bedair gwlad y DU ati wedyn i ddatblygu eu cynlluniau gweithredu eu hunain, gan nodi sut y byddai partneriaid yn y wlad honno'n cydweithio i gyflawni blaenoriaethau Strategaeth Golwg y DU.

Ffurfiwyd Grŵp Gweithredu Strategaeth Golwg Cymru er mwyn datblygu a chyflawni cynllun gweithredu ar gyfer 2010-14. Gwnaed cynnydd sylweddol tuag at gyflawni amcanion y cynllun – o ddatblygu llwybrau clinigol ar gyfer trin glawcoma, dirywiad macwlaidd sy'n gysylltiedig ag oedran a gofal heb ei drefnu, i gyflwyno "bysiau siarad" gan nifer o gwmnïau bysiau yng Nghymru.

Adolygwyd Strategaeth Golwg y DU yn 2013, gan arwain at gytuno ar gyfres ddiwygiedig o ganlyniadau a'i chyhoeddi. Aeth Grŵp Gweithredu Strategaeth Golwg Cymru ati yn sgîl hynny i gynnal ymarfer ymgynghori er mwyn cytuno ar gynllun gweithredu newydd ar gyfer 2014-18, a chynhaliwyd cyfres o weithdai er mwyn dod â rhanddeiliaid at ei gilydd a chytuno ar flaenoriaethau.

Un o'r datblygiadau pwysicaf ym maes gofal y llygaid yng Nghymru dros y blynyddoedd diwethaf fu cyhoeddi strategaeth bum mlynedd Llywodraeth

Cymru ar gyfer iechyd llygaid, sef Cynllun Cyflawni Cymru ar gyfer Gofal Iechyd Llygaid. Bu aelodau Grŵp Gweithredu Strategaeth Golwg Cymru yn rhan o'r gwaith o ddylanwadu ar gynnwys y Cynllun ac maent yn ymwneud â'r gwaith o fonitro a chefnogi'r broses o'i gweithredu. Ceir gorgyffwrdd sylweddol rhwng blaenoriaethau Cynllun Llywodraeth Cymru a nodau Strategaeth Golwg Cymru. Mae Cynllun Gweithredu newydd Strategaeth Golwg Cymru yn adlewyrchu hyn, ac mae camau gweithredu perthnasol Llywodraeth Cymru wedi'u cynnwys ochr yn ochr â'r rheini a ddatblygwyd gan aelodau Strategaeth Golwg Cymru.

Ein tri maes canlyniadau

Canlyniad Un – Mae pawb yng Nghymru yn gofalu am eu llygaid a'u golwg

Dros y pedair blynedd nesaf, byddwn yn gweithio i wneud y canlynol:

- codi ymwybyddiaeth a meithrin dealltwriaeth o iechyd llygaid, gan ganolbwyntio'n arbennig ar y bobl sy'n wynebu'r risg fwyaf o glefyd y llygaid yn ogystal ag ymarferwyr iechyd a gofal cymdeithasol.
- sicrhau y caiff achosion o golli golwg eu nodi'n gynnar a'u hatal lle y bo'n bosibl.

Canlyniad Dau – Mae pawb sydd â chyflwr llygaid yn cael triniaeth amserol ac, os bydd unigolion yn colli eu golwg yn barhaol, mae gwasanaethau a chymorth cynnar a phriodol ar gael sy'n hygyrch i bawb

Dros y pedair blynedd nesaf, byddwn yn gweithio i wneud y canlynol:

- gwella'r modd y caiff gwasanaethau iechyd llygaid a gofal llygaid eu cydgysylltu a'u hintegreiddio, eu cwmpas a'u heffeithiolrwydd.
- sicrhau, pan fydd pobl yn colli eu golwg yn barhaol, y darperir cymorth emosiynol a gwasanaethau sefydlu neu adsefydlu mewn modd amserol, gan alluogi pobl i gadw neu adennill eu hannibyniaeth.

Canlyniad Tri – Cymdeithas y gall pobl sy'n colli eu golwg gyfranogi'n llawn ynddi

Dros y pedair blynedd nesaf, byddwn yn gweithio i wneud y canlynol:

- gwella agweddau, ymwybyddiaeth a chamau gweithredu ym maes addysg a chyflogaeth ac o fewn gwasanaethau eraill.
- sicrhau y gall plant a phobl ifanc sy'n colli eu golwg gymryd eu lle mewn cymdeithas.
- gwella cydymffurfiaeth â deddfwriaeth cydraddoldeb.

Canlyniad Un – Mae pawb yng Nghymru yn gofalu am eu llygaid a'u golwg

Dros y pedair blynedd nesaf, byddwn yn gweithio i wneud y canlynol:

- codi ymwybyddiaeth a meithrin dealltwriaeth o ofal llygaid, gan ganolbwyntio'n arbennig ar y bobl sy'n wynebu'r risg fwyaf o glefyd y llygaid yn ogystal ag ymarferwyr iechyd a gofal cymdeithasol.
- sicrhau y caiff achosion o golli golwg eu nodi'n gynnar a'u hatal lle y bo'n bosibl.

Ein nod

Sicrhau bod iechyd llygaid yn flaenoriaeth a gydnabyddir ym maes iechyd y cyhoedd, a ategir gan waith ymchwil a phrosesau casglu data cadarn. Dylai'r effaith ar iechyd llygaid a golwg ddod yn rhan o nodwedd integredig ar ymgyrchoedd mawr ym maes iechyd y cyhoedd ac addysg, fel y rheini sy'n mynd i'r afael ag ysmygu, deiet neu ordewdra.

Amcanion perthnasol Cynllun Cyflawni Cymru ar gyfer Gofal Iechyd Llygaid Llywodraeth Cymru

- Sicrhau bod ystadegau a demograffeg iechyd llygaid yn cael eu cynnwys mewn Asesiadau o Anghenion y GIG ac adroddiadau Cyfarwyddwyr Iechyd y Cyhoedd ar gyfer pob Bwrdd Iechyd.
- Chwilio am gyfleoedd i gysylltu materion iechyd llygaid gydag ymgyrchoedd ymwybyddiaeth iechyd eraill fel diabetes, ysmygu a chwympo.
- Nodi cymorth Iechyd y Cyhoedd arbenigol er mwyn rhoi cyngor ar faterion gofal llygaid.
- Casglu, cofnodi a monitro gallu gwasanaethau gofal llygaid a'r galw amdanynt.

Ein nod

Cynyddu dealltwriaeth y cyhoedd a gweithwyr proffesiynol o iechyd llygaid drwy ymgyrchoedd addysg traws sector parhaus sy'n seiliedig ar dystiolaeth, sy'n canolbwyntio'n benodol ar iechyd llygaid. Dylai'r rhain bwysleisio rôl profion golwg rheolaidd o ran nodi'r angen i gywiro'r golwg, gan gynnwys sbectolau a lensys cyffwrdd, ac o ran nodi arwyddion cynnar clefyd a sicrhau y caiff

unigolion eu hatgyfeirio'n briodol. Dylai hefyd fod rhaglenni hyfforddi a datblygu ar gyfer ymarferwyr iechyd a gofal cymdeithasol ac ymarferwyr addysg, gan roi blaenoriaeth i'r rheini sy'n gweithio gyda grwpiau sy'n wynebu'r risg fwyaf o golli golwg.

Amcanion perthnasol Cynllun Cyflawni Cymru ar gyfer Gofal Iechyd Llygaid Llywodraeth Cymru

- Datblygu strategaeth iechyd llygaid ac addysg y cyhoedd ar gyfer y cyhoedd, grwpiau sy'n wynebu risg a phlant.
- Gweithio gydag athrawon, nyrsys ysgol, optometryddion ac ymwelwyr iechyd er mwyn addysgu plant a rheini am bwysigrwydd profion golwg.
- Cynyddu ymwybyddiaeth o iechyd llygaid ymhlith gweithwyr proffesiynol gofal sylfaenol a gofal cymunedol.
- Sicrhau bod yr Asesiad Iechyd i bobl dros 50 oed yn cynnwys profion golwg.
- Gweithio gydag Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru er mwyn sicrhau y caiff pwysigrwydd gofal llygaid o ansawdd da ei hyrwyddo mewn gofal preswyl.
- Gweithio gyda Chanolfan Addysg Optometreg Ôl-raddedig Cymru er mwyn rhoi hyfforddiant i feddygon teulu, fferyllwyr a nyrsys practis mewn gofal llygaid yng Nghymru.

Bydd Grŵp Gweithredu Strategaeth Golwg Cymru yn gwneud y canlynol

- Cynyddu ymwybyddiaeth o Wasanaethau Offthalmig Cyffredinol a Gwasanaeth Gofal Llygaid Cymru drwy roi hyfforddiant i feddygon teulu, fferyllwyr a thechnegwyr fferyllol.
  - **Targed: blwyddyn un – rhoi hyfforddiant i 500 o bobl**
- Ceisio cynnwys gwybodaeth am iechyd llygaid yng Nghofnod Iechyd Personol y Plentyn (y "llyfr coch") a roddir i rieni newydd.
  - **Targed: blwyddyn un – datblygu cynnwys**
- Hyrwyddo addysg iechyd llygaid fel rhan o Ddatblygiad Proffesiynol Parhaus meddygon teulu.
  - **Targed: blwyddyn un – lledaenu gwybodaeth i bob practis meddyg teulu yng Nghymru drwy gylchlythyr Coleg Brenhinol y Meddygon Teulu a chyfrannu at y gwaith o ddatblygu prosiect y Coleg i sicrhau bod iechyd llygaid yn flaenoriaeth glinigol yng Nghymru**

- Cynnal gweithgareddau codi ymwybyddiaeth blynyddol fel rhan o Wythnos Genedlaethol Iechyd Llygaid, er mwyn hyrwyddo pwysigrwydd iechyd llygaid a'r angen i bawb gael profion golwg rheolaidd.
  - **Targed: blwyddyn un – gweithio gydag o leiaf bum sefydliad partner newydd, a chyrraedd o leiaf 20,000 o bobl**
- Gweithio mewn partneriaeth â Choleg Brenhinol y Meddygon Teulu, Strategaeth Golwg y DU a phartneriaid perthnasol eraill, fel rhan o ymrwymiad Coleg Brenhinol y Meddygon Teulu i sicrhau bod iechyd llygaid yn flaenoriaeth glinigol, cynyddu ymwybyddiaeth ymhlith meddygon teulu mewn perthynas ag atal achosion o golli golwg y gellir eu hosgoi a chefnogi pobl ddall a rhannol ddall.
  - **Targed: blwyddyn un – cyfrannu at y gwaith o ddatblygu cynllun gweithredu ar gyfer prosiect Coleg Brenhinol y Meddygon Teulu i sicrhau bod iechyd llygaid yn flaenoriaeth glinigol yng Nghymru**
- Hyrwyddo gofal iechyd pediatrig fel rhan o ymgyrchoedd ymwybyddiaeth y cyhoedd ehangach e.e. Diwrnod Orthoptig y Byd, Wythnos Genedlaethol Iechyd Llygaid, Diwrnod Ymwybyddiaeth o Llygadgrynu ac ati
  - **Targed: blwyddyn un – cynnal cyfres o ddigwyddiadau lleol gydag orthoptwyr er mwyn hyrwyddo'r ymgyrchoedd codi ymwybyddiaeth amrywiol**

Ein nod

Sicrhau bod mwy o bobl yn cael profion golwg ac, i'r rheini sy'n gymwys, gwasanaethau Archwiliadau Iechyd Llygaid yng Nghymru a Gwasanaeth Sgrinio ar gyfer Retinopatheg Diabetig Cymru.

Amcanion perthnasol Cynllun Cyflawni Cymru ar gyfer Gofal Iechyd Llygaid Llywodraeth Cymru

- Datblygu strategaeth iechyd llygaid ac addysg y cyhoedd ar gyfer y cyhoedd, grwpiau sy'n wynebu risg a phlant.
- Annog pob optometrydd i gael ei achredu i ddarparu Archwiliadau Iechyd Llygaid yng Nghymru.
- Darparu hyfforddiant er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth ymhlith gweithwyr proffesiynol gofal sylfaenol a gofal cymunedol o gymhwysedd a llwybrau atgyfeirio ar gyfer Archwiliadau Iechyd Llygaid yng Nghymru a Gwasanaeth Sgrinio ar gyfer Retinopatheg Diabetig Cymru.
- Archwilio nifer y bobl sy'n cael Archwiliadau Iechyd Llygaid yng Nghymru yn ôl grwpiau risg uchel.

- Gweithio gydag Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru a rhanddeiliaid eraill er mwyn ymchwilio i ddarpariaeth gofal llygaid mewn lleoliadau gofal preswyl a sicrhau bod profion golwg rheolaidd yn cael eu cynnwys mewn cynlluniau gofal personol unigol i breswylwyr.
- Sicrhau bod pobl ar incymau isel yn gallu cael gafael ar dalebau optegol y GIG ar gyfer sbectolau a/neu lensys cyffwrdd.

Bydd Grŵp Gweithredu Strategaeth Golwg Cymru yn gwneud y canlynol

- Sicrhau bod meddygon teulu yn ymwybodol o gymhwysedd a llwybrau atgyfeirio ar gyfer Archwiliadau Iechyd Llygaid yng Nghymru a Gwasanaeth Sgrinio ar gyfer Retinopatheg Diabetig Cymru.
  - **Targed: blwyddyn un – lledaenu gwybodaeth i bob practis meddyg teulu yng Nghymru drwy gylchlythyr Coleg Brenhinol y Meddygon Teulu**

Ein nod

Sicrhau y caiff problemau posibl gyda'r golwg ymhlith plant a phobl ifanc eu nodi ac yr eir i'r afael â hwy. Dylai cynlluniau gynnwys sicrhau y gweithredir mwy o raglenni'r Pwyllgor Sgrinio Cenedlaethol sy'n dilyn arfer gorau presennol a gwella ymwybyddiaeth ohonynt, yn enwedig ar gyfer y rhai sy'n wynebu mwy o risg o golli eu llygaid.

Amcanion perthnasol Cynllun Cyflawni Cymru ar gyfer Gofal Iechyd Llygaid Llywodraeth Cymru

- Gweithio gydag athrawon, nyrsys ysgol, optometryddion ac ymwelwyr iechyd er mwyn addysgu plant a rheini am bwysigrwydd profion golwg.
- Datblygu proses sicrhau ansawdd allanol genedlaethol ar gyfer gwasanaethau sgrinio'r golwg mewn ysgolion prif ffrwd gan gynnwys monitro nifer y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth a safonau hyfforddiant i nyrsys a chynorthwywyr.
- Gweithio i wella ansawdd gwasanaethau sgrinio i blant – gan gynnwys adolygu hyfforddiant, cyfarpar a phrosesau monitro yng ngoleuni safonau cenedlaethol.
- Datblygu gwasanaeth i sicrhau y cynigir prawf golwg blynyddol yn yr ysgol i blant mewn ysgolion arbennig.
- Bydd Grŵp Gweithredu Strategaeth Golwg Cymru yn gwneud y canlynol
- Ceisio cynnwys gwybodaeth am iechyd llygaid yng Nghofnod Iechyd Personol y Plentyn (y "llyfr coch") a roddir i rieni newydd.
  - **Targed: blwyddyn un – datblygu cynnwys**

Ein nod

Sicrhau y caiff achosion posibl o golli golwg eu nodi ac yr eir i'r afael â hwy ar gyfer pob unigolyn â chyflyrau iechyd ac anableddau lle mae cydberthynas hysbys â cholli golwg, a bod ymwybyddiaeth gynyddol ymhlith ymarferwyr gofal iechyd, gan gynnwys ymarferwyr iechyd llygaid, o'r gydberthynas honno a'r gwasanaethau sydd ar gael.

Amcanion perthnasol Cynllun Cyflawni Cymru ar gyfer Gofal Iechyd Llygaid Llywodraeth Cymru

- Datblygu gwasanaeth i sicrhau y cynigir prawf golwg blynyddol yn yr ysgol i blant mewn ysgolion arbennig.
- Annog pob optometrydd i gael ei achredu i ddarparu Archwiliadau Iechyd Llygaid yng Nghymru.
- Darparu hyfforddiant er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth ymhlith gweithwyr proffesiynol gofal sylfaenol a gofal cymunedol o gymhwysedd a llwybrau atgyfeirio ar gyfer Archwiliadau Iechyd Llygaid yng Nghymru a Gwasanaeth Sgrinio ar gyfer Retinopatheg Diabetig Cymru.
- Archwilio nifer y bobl sy'n cael Archwiliadau Iechyd Llygaid yng Nghymru yn ôl grwpiau risg uchel.

Bydd Grŵp Gweithredu Strategaeth Golwg Cymru yn gwneud y canlynol

- Ystyried treialu cynllun "estynedig" i feddygon teulu.
  - **Targed: blwyddyn un – llunio pecyn cymorth**
- Ystyried sut y caiff yr elfen iechyd llygaid bresennol ei darparu o fewn y profion iechyd blynyddol i'r rheini ag anghenion ychwanegol.
  - **Targed: gwneud cynnydd ym mlwyddyn dau**
- Gweithio gyda staff Byrddau Iechyd er mwyn rhoi llwybrau strôc ar waith sy'n sicrhau y gellir cael gafael ar wasanaethau sgrinio'r golwg mewn modd priodol.
  - **Targed: blwyddyn un – parhau i ymgysylltu â Byrddau Iechyd**
- Darparu hyfforddiant ymwybyddiaeth o golli golwg i staff sy'n gweithio gyda chleifion strôc.
  - **Targed: blwyddyn un – cynnal dwy sesiwn, hyfforddiant i gyfanswm o 20 o staff**

- Gweithio gyda sefydliadau sy'n cefnogi pobl ag anableddau dysgu ac anghenion cymhleth er mwyn sicrhau y gellir cael gafael yn haws ar wasanaethau gofal llygaid.
  - **Targed: blwyddyn un – llunio deunyddiau gwybodaeth ar gyfer Anabledd Dysgu Cymru i'w dosbarthu drwy eu rhwydweithiau**
- Gweithio i gynyddu ymwybyddiaeth o fyddarddallineb ymhlith gweithwyr proffesiynol iechyd a gofal cymdeithasol, a'r gwasanaethau a'r cymorth sydd ar gael i'r rheini sy'n fyddarddall.
  - **Targedau: blwyddyn un – cynnal arolwg o'r holl awdurdodau lleol er mwyn mapio cydymffurfiaeth â'r canllawiau cyfredol ar ddarparu gwasanaethau i bobl sy'n fyddarddall; mynychu cyfarfodydd tîm gweithwyr proffesiynol iechyd a gofal cymdeithasol er mwyn codi ymwybyddiaeth o fyddarddallineb**

Ein nod

Sicrhau y caiff achosion posibl o golli golwg eu nodi ac yr eir i'r afael â hwy ar gyfer pob unigolyn o gefndir ethnig lle ceir cydberthynas hysbys â cholli golwg, a bod ymwybyddiaeth gynyddol ymhlith ymarferwyr gofal iechyd, gan gynnwys ymarferwyr iechyd llygaid, o'r gydberthynas honno a'r gwasanaethau sydd ar gael.

Amcanion perthnasol Cynllun Cyflawni Cymru ar gyfer Gofal Iechyd Llygaid Llywodraeth Cymru

- Annog pob optometrydd i gael ei hachredu i ddarparu Archwiliadau Iechyd Llygaid yng Nghymru.
- Darparu hyfforddiant er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth ymhlith gweithwyr proffesiynol gofal sylfaenol a gofal cymunedol o gymhwysedd a llwybrau atgyfeirio ar gyfer Archwiliadau Iechyd Llygaid yng Nghymru a Gwasanaeth Sgrinio ar gyfer Retinopatheg Diabetig Cymru.
- Archwilio nifer y bobl sy'n cael Archwiliadau Iechyd Llygaid yng Nghymru yn ôl grwpiau risg uchel.

Bydd Grŵp Gweithredu Strategaeth Golwg Cymru yn gwneud y canlynol

- Lledaenu canfyddiadau prosiect peilot i gynyddu nifer y bobl sy'n cael Archwiliadau Iechyd Llygaid yng Nghymru mewn cymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig.
  - **Targed: blwyddyn un – datblygu cynllun lledaenu gyda grŵp cynghori'r prosiect a'i roi ar waith**

Ein nod

Sicrhau buddsoddiad mewn gwaith ymchwil pellach er mwyn lleihau nifer yr achosion o golli golwg drwy ddatblygu ymyriadau ar gyfer cyflyrau na ellir eu trin ar hyn o bryd a hefyd er mwyn creu sail dystiolaeth ar gyfer gwasanaethau adsefydlu a chymorth effeithiol.

Bydd Grŵp Gweithredu Strategaeth Golwg Cymru yn gwneud y canlynol

- Ystyried y potensial i wneud gwaith ymchwil academaidd ar effeithiolrwydd gwasanaethau adsefydlu i bobl sy'n colli eu golwg.
  - Targed: **blwyddyn un – sicrhau cyllid i ymgymryd â gwaith ymchwil**
- Datblygu sail dystiolaeth fwy cadarn ar gyfer effaith Gwasanaeth Cyswllt Clinig y Llygaid a chodi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd y gwasanaeth.
  - Targed: **blwyddyn un – coladu adroddiadau tystiolaeth chwarterol ar gyfer pob ardal Bwrdd lechyd, a'u hanfon at y Byrddau lechyd a rhanddeiliaid allweddol eraill; cwblhau gwaith ymchwil ar Enillion Cymdeithasol ar Fuddsoddiad ar gyfer gwasanaethau Archwiliadau lechyd Llygaid yng Nghymru; cynnal arolwg o brofiad cleifion; cynnal dadansoddiad o gymorth wyneb yn wyneb yn erbyn cymorth dros y ffôn gan Archwiliadau lechyd Llygaid yng Nghymru**

Canlyniad Dau – Mae pawb sydd â chyflwr llygaid yn cael triniaeth amserol ac, os bydd unigolion yn colli eu golwg yn barhaol, mae gwasanaethau a chymorth cynnar a phriodol ar gael ac sy'n hygyrch i bawb

Dros y pedair blynedd nesaf, byddwn yn gweithio i wneud y canlynol:

- gwella'r modd y caiff gwasanaethau iechyd llygaid a gofal llygaid eu cydgysylltu a'u hintegreiddio, eu cwmpas a'u heffeithiolrwydd.
- sicrhau, pan fydd pobl yn colli eu golwg yn barhaol, y darperir cymorth emosiynol a gwasanaethau sefydlu neu adsefydlu mewn modd amserol, gan alluogi pobl i gadw neu adennill eu hannibyniaeth.

Ein nod

Sicrhau y gellir cael gafael yn haws ar ofal a thriniaeth iechyd llygaid.

Amcanion perthnasol Cynllun Cyflawni Cymru ar gyfer Gofal Iechyd Llygaid Llywodraeth Cymru

- Gweithio i ddatblygu atgyfeiriadau electronig a chofnodion cleifion electronig ar gyfer gofal llygaid.
- Gweithio i gynyddu'r gwasanaethau a ddarperir mewn lleoliadau gofal sylfaenol a gofal cymunedol, lle y bo'n glinigol briodol.
- Adolygu a datblygu Archwiliadau Iechyd Llygaid yng Nghymru bob blwyddyn a datblygu llwybr llygaid sych.
- Adolygu Archwiliadau Iechyd Llygaid yng Nghymru a llwybrau Ffocws ar Offthalmoleg gofal sylfaenol yng ngoleuni canfyddiadau archwiliad o atgyfeiriadau er mwyn datblygu rhestr y cytunwyd arni o atgyfeiriadau priodol ac amhriodol.
- Diwygio targedau ar gyfer offthalmoleg er mwyn cynnwys mesurau ar gyfer pob claf (newydd a dilynol) sy'n seiliedig ar anghenion clinigol a'r risg o golli golwg na ellir ei wrthdroi.

- Datblygu systemau i wella'r broses o gasglu data fel mater o drefn mewn perthynas â galw, gallu, gweithgarwch ac ôl-groniadau mewn Gwasanaethau Llygaid mewn Ysbyty.
- Archwilio atgyfeiriadau o ofal sylfaenol i ofal eilaidd.
- Casglu, cofnodi a monitro gallu gwasanaethau gofal llygaid a'r galw amdanynt.
- Sefydlu Canolfannau Diagnosteg a Thriniaeth Offthalmig ar gyfer glawcoma.
- Sicrhau bod proses dryloyw ar waith ar gyfer ystyried a chymhwyso canllawiau NICE sy'n cynnwys offthalmolegwyr a chleifion.
- Sicrhau yr ymatebir i bob atgyfeiriad at ofal eilaidd.

Bydd Grŵp Gweithredu Strategaeth Golwg Cymru yn gwneud y canlynol

- Ystyried y potensial ar gyfer llwybrau atgyfeirio uniongyrchol o optometreg i ofal eilaidd.
  - **Targed: blwyddyn un – gweithio i ddatblygu llwybrau newydd**
- Codi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd triniaeth iechyd llygaid amserol a gweithio gyda Llywodraeth Cymru a Byrddau Iechyd i chwilio am ddatrysiadau i faterion gallu ym maes Offthalmoleg.
  - **Targed: blwyddyn un – cyhoeddi adroddiad ar faterion gallu presennol ym maes offthalmoleg**
- Lledaenu canfyddiadau Prosiect Ymgysylltu â'r Gymuned Cwm Taf, a werthusodd effeithiolrwydd y Ganolfan Diagnosteg a Thriniaeth Offthalmig yn Ysbyty Cwm Rhondda.
  - **Targed: blwyddyn un – datblygu cynllun i ledaenu canfyddiadau i randdeiliaid allweddol a'i roi ar waith**

Ein nod

Sicrhau y gellir cael gafael yn haws ar wasanaethau colli golwg, gan gynnwys gwasanaethau golwg gwan, ac y caiff gwasanaethau mwy integredig eu datblygu sy'n darparu llwybrau di-dor drwy'r sector iechyd, gofal cymdeithasol, preifat a'r sector gwirfoddol. Dylai fod ystod eang o gymorth ar gael bob amser, sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac yn gwneud y defnydd gorau o adnoddau cymunedol ac adnoddau ysbytai

Amcanion perthnasol Cynllun Cyflawni Cymru ar gyfer Gofal Iechyd Llygaid Llywodraeth Cymru

- Sicrhau bod pawb sydd â'r hawl i gael eu hardystio'n unigolion â nam ar eu golwg yn cael eu hardystio.
- Gweithio gyda fferyllwyr er mwyn adolygu i ba raddau y glynir wrth feddyginiaeth glawcoma gan gynnwys mewn cartrefi gofal.
- Sicrhau atgyfeiriadau effeithiol at wasanaethau cymdeithasol o'r gwasanaethau llygaid mewn ysbyty lle byddai'r unigolyn yn cael budd o asesiad gan swyddog adsefydlu a, lle y bo'n briodol, raglen adsefydlu.
- Sicrhau atgyfeiriadau effeithiol at Wasanaeth Golwg Gwan Cymru a'r trydydd sector o'r gwasanaethau llygaid mewn ysbyty.
- Hyrwyddo Gwasanaeth Golwg Gwan Cymru a chynyddu nifer y bobl sy'n ei ddefnyddio.
- Darparu hyfforddiant amlddisgyblaethol ar gyfer ymarferwyr Gwasanaeth Golwg Gwan Cymru, gweithwyr adsefydlu, gweithwyr cymdeithasol a staff y sector gwirfoddol mewn llwybrau atgyfeirio.
- Gweithio gyda Gwasanaeth Golwg Gwan Cymru er mwyn sicrhau atgyfeiriadau effeithiol at wasanaethau cymdeithasol a'r trydydd sector.
- Gwella atgyfeiriadau rhwng Gwasanaeth Golwg Gwan Cymru, gwasanaethau cymdeithasol a'r trydydd sector.
- Gweithio gydag AGGCC er mwyn sicrhau bod y rheini â nam ar y synhwyrau sy'n byw mewn gofal preswyl yn cael eu nodi a'u cefnogi.
- Cynnwys nam ar y synhwyrau yn y broses o weithredu'r Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant.

Bydd Grŵp Gweithredu Strategaeth Golwg Cymru yn gwneud y canlynol

- Gweithio mewn partneriaeth â Choleg Brenhinol yr Offthalmolegwyr, Vision 2020 UK a phartneriaid perthnasol ym maes gofal llygaid yng Nghymru er mwyn cynnal cyfres o weithdai a arweinir gan gyfoedion ar gyfer offthalmolegwyr a staff clinig, yn nodi manteision ardystio a chofrestru.
  - **Targed: blwyddyn un – gweithio gyda phartneriaid er mwyn cynllunio a chynnal gweithdai**
- Cydweithio er mwyn gwella'r broses atgyfeirio o optometreg i'r trydydd sector
  - **Targed: blwyddyn un – RNIB Cymru ac Optometreg Cymru i ystyried sut i godi ymwybyddiaeth optometryddion o wasanaethau'r trydydd sector**

- Darparu gwasanaethau cyswllt clinig y llygaid mewn ysbytai, wedi'u cefnogi gan amrywiaeth o bartneriaid, gan gynnwys Byrddau Iechyd a sefydliadau'r trydydd sector.
  - **Targed: blwyddyn un – cynorthwyo 2,835 o bobl**
- Treialu gwasanaeth cyswllt clinig y llygaid cymunedol.
  - **Targed: blwyddyn un – gwasanaeth cyswllt clinig y llygaid i fod ar waith erbyn mis Medi**
- Darparu gwasanaeth cynghori, gwybodaeth ac atgyfeirio, gan gynnwys gwasanaeth ymweliadau cartref i'r rheini sydd newydd gael diagnosis a gwasanaeth ffôn er mwyn cysylltu'n rhagweithiol â chleientiaid bob blwyddyn.
  - **Targed: blwyddyn un – cynorthwyo 5,748 o bobl**
- Darparu gwasanaeth atgyfeirio diduedd i'r ystod lawn o gymorth sydd ar gael i bobl â nam ar eu golwg.
  - **Targed: blwyddyn un – datblygu porth ar-lein er mwyn darparu gwybodaeth a gwasanaeth atgyfeirio**

Ein nod

Sicrhau bod gwybodaeth ddibynadwy, hygyrch a pherthnasol am gyflyrau'r llygaid, gofal llygaid, gwasanaethau colli golwg, rhwydweithiau cymorth a hawliau cyfreithiol ar gael, y gellir cael gafael arni'n hawdd mewn amrywiaeth o fformatau ac ieithoedd, er mwyn galluogi pobl i ddeall eu hopsiynau, dewis gwasanaethau a gwneud penderfyniadau hyddysg. Yn achos plant, dylid ymestyn hyn i gynnwys rhieni a gwarcheidwaid a, phe bai hynny o fudd i'r unigolyn, dylid cynnwys y rhai sy'n ei gefnogi.

Bydd Grŵp Gweithredu Strategaeth Golwg Cymru yn gwneud y canlynol

- Helpu i ddatblygu Porth Dinasyddion Gofal Cymdeithasol Cymru Gyfan (Dewis), gan weithio gydag amrywiaeth o sefydliadau arbenigol er mwyn sicrhau ei fod yn darparu gwybodaeth, cyngor a gwasanaeth atgyfeirio effeithiol.
  - **Targed: blwyddyn un – datblygu porth**
- Adolygu argaeledd deunydd ar gyflyrau'r llygaid er mwyn sicrhau ei fod ar gael mewn fformatau sy'n addas i bobl ag anableddau dysgu a, lle y bo angen, herio darparwyr i gyhoeddi fformatau hygyrch.
  - **Targed: gwneud cynnydd ym mlwyddyn dau**

- Darparu gwasanaeth cynghori, gwybodaeth ac atgyfeirio, gan gynnwys gwasanaeth ymweliadau cartref i'r rheini sydd newydd gael diagnosis a gwasanaeth ffôn er mwyn cysylltu'n rhagweithiol â chleientiaid bob blwyddyn.
  - **Targed: blwyddyn un – cynorthwyo 5,748 o bobl**
- Darparu gwasanaethau cyswllt clinig y llygaid mewn ysbytai, wedi'u cefnogi gan amrywiaeth o bartneriaid, gan gynnwys Byrddau Iechyd a sefydliadau'r trydydd sector.
  - **Targed: blwyddyn un – cynorthwyo 2,835 o bobl**
- Darparu gwasanaeth atgyfeirio diduedd at yr ystod lawn o gymorth sydd ar gael i bobl â nam ar eu golwg.
  - **Targed: blwyddyn un – datblygu porth ar-lein er mwyn darparu gwybodaeth a gwasanaeth atgyfeirio**
- Cefnogi a monitro'r broses o weithredu Safonau Cymru Gyfanar gyfer Darparu Gwybodaeth Hygyrch i Bobl â Nam ar eu Synhwyrau a Chyfathrebu â Hwy yn y GIG.
  - **Targed: blwyddyn un – llunio pecyn gwybodaeth i bobl ddall a rhannol ddall am y Safonau a'r hyn a ddisgwylir gennym; helpu pobl ddall a rhannol ddall i roi adborth ar eu profiadau a chael eu cynnwys yn adroddiad blynyddol Canolfan Cydraddoldeb a Hawliau Dynol y GIG ar y Safonau**
- Rhoi cyngor a chymorth i blant dall a rhannol ddall a'u teuluoedd, er mwyn gwella eu hyder a'u hannibyniaeth i'r eithaf a'u helpu i gael gafael ar yr amrywiaeth o wasanaethau statudol a gwasanaethau eraill y gall fod eu hangen.
  - **Targed: blwyddyn un – cynnal dau gyfarfod grŵp rhanddeiliaid; llunio gwybodaeth i rieni am ffynonellau cymorth**
- Rhoi cyngor a gwybodaeth i bobl ddall a rhannol ddall a'u helpu i gael gafael ar fudd-daliadau lles.
  - **Targed: blwyddyn un – cynorthwyo 500 o bobl**
- Gweithio gyda Gweithredu ar Golli Clyw Cymru ar ei brosiect cynhwysiant nam ar y synhwyrau i ddarparwyr gwasanaethau.
  - **Targed: blwyddyn un – cyfrannu at y gwaith o ddatblygu'r prosiect drwy ei grŵp cyfeirio rhanddeiliaid**

- Ymgyrchu er mwyn gwella'r gallu i gael gafael ar wybodaeth awdurdodau lleol, gan gynnwys ystyried y potensial ar gyfer safonau sy'n cyfateb i Safonau Cymru Gyfan ar gyfer Darparu Gwybodaeth Hygyrch i Bobl â Nam ar eu Synhwyrau a Chyfathrebu â Hwy yn y GIG.
  - Targed: **blwyddyn un – gweithio gyda Gweithredu ar Golli Clyw Cymru er mwyn ystyried cwmpas ei brosiect Cynhwysiant Nam ar y Synhwyrau, a nodi bylchau posibl lle y gall fod angen gwneud rhagor o waith**

Ein nod

Sicrhau bod cymorth emosiynol yn rhan integredig o wasanaethau gofal llygaid a cholli golwg, p'un a gânt eu cynnig mewn clinigau llygaid, yn y gymuned, neu drwy unrhyw ffordd arall. Dylai gwasanaethau fel cwnsela wedi'i deilwra fod ar gael i bobl sy'n colli eu golwg a'r rhai sy'n eu cefnogi cyn gynted ag y nodir problem bosibl. Dylid cynnig cysylltiadau â chymorth gan gymheiriaid hefyd.

Bydd Grŵp Gweithredu Strategaeth Golwg Cymru yn gwneud y canlynol

- Monitro argaeledd cymorth emosiynol i blant a phobl ifanc dall a rhannol ddall, ac ymgyrchu dros welliannau lle y bo angen.
  - Targed: **blwyddyn un – sefydlu gwasanaethau sylfaenol ym maes iechyd, addysg a gwasanaethau cymdeithasol a llunio adroddiad**
- Darparu gwasanaethau cyswllt clinig y llygaid mewn ysbytai, wedi'u cefnogi gan amrywiaeth o bartneriaid, gan gynnwys Byrddau Iechyd a sefydliadau'r trydydd sector.
  - Targed: **blwyddyn un – cynorthwyo 2,835 o bobl**
- Treialu gwasanaeth cyswllt clinig y llygaid cymunedol.
  - Targed: **blwyddyn un – gwasanaeth cyswllt clinig y llygaid i fod ar waith erbyn mis Medi**
- Datblygu sail dystiolaeth fwy cadarn ar gyfer effaith gwasanaeth cyswllt clinig y llygaid a chodi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd y gwasanaeth.
  - Targed: **blwyddyn un – coladu adroddiadau tystiolaeth chwarterol ar gyfer pob ardal Bwrdd Iechyd, a'u hanfon at y Byrddau Iechyd a rhanddeiliaid allweddol eraill; cwblhau gwaith ymchwil ar Enillion Cymdeithasol ar Fuddsoddiad ar gyfer gwasanaethau Archwiliadau Iechyd Llygaid yng Nghymru; cynnal arolwg o brofiad cleifion; cynnal dadansoddiad o gymorth wyneb yn wyneb yn erbyn cymorth dros y ffôn gan Archwiliadau Iechyd Llygaid yng Nghymru**

- Annog a chefnogi cymdeithasau lleol i sefydlu modelau gwasanaeth cyfeillio dros y ffôn yn yr ardaloedd lle nad oes gwasanaeth yn bodoli eisoes.
  - Targed: **blwyddyn un – gweithio gyda'r gymdeithas leol i hyrwyddo, cefnogi a sefydlu cynllun cyfeillio**
- Darparu gwasanaeth cwnsela a chymorth emosiynol.
  - Targed: **blwyddyn un – cynorthwyo 100 o bobl**

Ein nod

Sicrhau y caiff triniaethau a gwasanaethau cymorth sy'n seiliedig ar ymchwil gadarn eu datblygu er mwyn gwella canlyniadau a sicrhau gwerth gwell am arian. Caiff hyn ei ategu gan fentrau fel Partneriaeth Pennu Blaenoriaethau o ran Colli Golwg a Golwg y DU.

Amcanion perthnasol Cynllun Cyflawni Cymru ar gyfer Gofal Iechyd Llygaid Llywodraeth Cymru

- Sicrhau bod proses dryloyw ar waith ar gyfer ystyried a chymhwyso canllawiau'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE) sy'n cynnwys offthalmolegwyr a chleifion.

Bydd Grŵp Gweithredu Strategaeth Golwg Cymru yn gwneud y canlynol

- Ystyried y potensial i wneud gwaith ymchwil academaidd ar effeithiolrwydd gwasanaethau adsefydlu i bobl sy'n colli eu golwg.
  - Targed: **blwyddyn un – sicrhau cyllid i ymgymryd â gwaith ymchwil**
- Datblygu sail dystiolaeth fwy cadarn ar gyfer effaith gwasanaeth cyswllt clinig y llygaid a chodi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd y gwasanaeth.
  - Targed: **blwyddyn un – coladu adroddiadau tystiolaeth chwarterol ar gyfer pob ardal Bwrdd Iechyd, a'u hanfon at y Byrddau Iechyd a rhanddeiliaid allweddol eraill; cwblhau gwaith ymchwil ar Enillion Cymdeithasol ar Fuddsoddiad ar gyfer gwasanaethau Archwiliadau Iechyd Llygaid yng Nghymru; cynnal arolwg o brofiad cleifion; cynnal dadansoddiad o gymorth wyneb yn wyneb yn erbyn cymorth dros y ffôn gan Archwiliadau Iechyd Llygaid yng Nghymru**
- Casglu a lledaenu gwybodaeth am effaith cynhwysiant/allgáu digidol ar bobl ddall a rhannol ddall.
  - Targed: **blwyddyn un – cyhoeddi adroddiad canlyniadol ar y cynnydd mewn lles a'r defnydd o dechnoleg**

Ein nod

Sicrhau bod gwasanaeth sefydlu neu adsefydlu ar gael cyn gynted ag y bo'i angen a'i fod yn adlewyrchu anghenion yr unigolyn, yn meithrin hyder a sgiliau a bod yr unigolyn (a/neu ei ofalwr) yn cytuno arno. Dylai gwasanaethau gwmpasu'r sgiliau sydd eu hangen ar gyfer bywyd beunyddiol, cyfathrebu a symudedd, a hefyd ganolbwyntio ar atal effeithiau eilaidd colli golwg, fel cwympo, iselder ac ynysu cymdeithasol.

Amcanion perthnasol Cynllun Cyflawni Cymru ar gyfer Gofal Iechyd Llygaid Llywodraeth Cymru

- Sicrhau atgyfeiriadau effeithiol at wasanaethau cymdeithasol o'r gwasanaethau llygaid mewn ysbyty lle byddai'r unigolyn yn cael budd o asesiad gan swyddog adsefydlu a lle y bo'n briodol raglen adsefydlu.

Bydd Grŵp Gweithredu Strategaeth Golwg Cymru yn gwneud y canlynol

- Dylanwadu ar y gwaith o ddatblygu rheoliadau o dan y Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru), er mwyn sicrhau bod meini prawf cymhwyso yn cydnabod effaith colli golwg ar fywyd unigolyn a phwysigrwydd adsefydlu/ail-alluogi/meithrin hyder
  - Targed: **blwyddyn un – cyfrannu at weithgorau ac ymgynghoriadau Llywodraeth Cymru ar y rheoliadau, llunio briffiau ar gyfer Aelodau Cynulliad (ACau) neu gyfarfod â hwy yn ôl yr angen**
- Codi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd gallu cael gafael ar wasanaethau adsefydlu mewn modd amserol
  - Targed: **blwyddyn un – cyhoeddi canfyddiadau arolwg o ddarpariaeth adsefydlu awdurdodau lleol, gan gynnwys briffiau i ACau a chynghorau lleol; llunio pecyn ymgyrch ar gyfer pobl ddall a rhannol ddall er mwyn eu galluogi i gysylltu â'u hawdurdod lleol ynglŷn â'r mater hwn**
- Darparu hyfforddiant ar gyfer meithrin sgiliau byw'n annibynnol a magu hyder.
  - Targed: **blwyddyn un – 300 o bobl**
- Parhau i ystyried system adrodd ar gyfer meincnodi gwasanaethau adsefydlu ledled Cymru.
  - Targed: **blwyddyn un – nodi pa ddata sy'n cael eu cofnodi ar hyn o bryd o fewn pob awdurdod lleol**

Ein nod

Sicrhau y caiff asesiadau amserol eu cynnal, sy'n ystyried pob agwedd ar fywyd unigolyn a'i anghenion cyfathrebu, gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud ag addysg a chyflogaeth. Dylid gwneud gwaith dilynol ar yr asesiadau hyn yn rheolaidd. Dylid darparu gwasanaethau, cymorth, cyfarpar cymunedol, addasiadau i'r tŷ neu gyllideb bersonol lle y bo angen, er mwyn galluogi pobl i arfer dewis a chael rheolaeth dros eu bywydau.

Amcanion perthnasol Cynllun Cyflawni Cymru ar gyfer Gofal Iechyd Llygaid Llywodraeth Cymru

- Sicrhau atgyfeiriadau effeithiol at wasanaethau cymdeithasol o'r gwasanaethau llygaid mewn ysbyty lle byddai'r unigolyn yn cael budd o asesiad gan swyddog adsefydlu a lle y bo'n briodol raglen adsefydlu.

Bydd Grŵp Gweithredu Strategaeth Golwg Cymru yn gwneud y canlynol

- Dylanwadu ar y gwaith o ddatblygu rheoliadau o dan y Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru), er mwyn sicrhau pobl ddall a rhannol ddall yn cael asesiadau amserol gan bobl sy'n meddu ar y cymwysterau addas a bod y meini prawf cymhwyso yn cydnabod effaith colli golwg ar fywyd unigolyn.
  - Targed: **blwyddyn un – cyfrannu at weithgorau ac ymgynghoriadau Llywodraeth Cymru ar y rheoliadau, llunio briffiau ar gyfer ACau neu gyfarfod â hwy yn ôl yr angen**

- Codi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd gwasanaethau adsefydlu amserol.
  - Targed: **blwyddyn un – cyhoeddi canfyddiadau arolwg o ddarpariaeth adsefydlu awdurdodau lleol, gan gynnwys briffiau i ACau a chynghorau lleol; llunio pecyn ymgyrch ar gyfer pobl ddall a rhannol ddall er mwyn eu galluogi i gysylltu â'u hawdurdod lleol ynglŷn â'r mater hwn**

- Gweithio i sicrhau bod gweithwyr gofal cymdeithasol proffesiynol yn fwy ymwybodol o fyddarddallineb a'r gwasanaethau a'r cymorth sydd ar gael i bobl fyddarddall.
  - Targedau: **Blwyddyn un – cynnal arolwg o'r holl awdurdodau lleol er mwyn mapio cydymffurfiaeth â'r canllawiau cyfredol ar ddarparu gwasanaethau i bobl sy'n fyddarddall; mynychu cyfarfodydd tîm gweithwyr proffesiynol iechyd a gofal cymdeithasol er mwyn codi ymwybyddiaeth o fyddarddallineb**

Ein nod

Sicrhau dealltwriaeth gynyddol o effaith colli golwg ymhlith ymarferwyr iechyd a gofal cymdeithasol ac addysg a chyflogaeth drwy raglenni hyfforddiant a datblygu.

Bydd Grŵp Gweithredu Strategaeth Golwg Cymru yn gwneud y canlynol

- Rhoi hyfforddiant ymwybyddiaeth o golli golwg i weithwyr arbenigol a gweithwyr proffesiynol.
  - Targed: **blwyddyn un – cynnal pedwar sesiwn a chyrraedd 100 o arbenigwyr/gweithwyr proffesiynol**
- Rhoi hyfforddiant ymwybyddiaeth o fyddarddallineb i weithwyr proffesiynol.
  - Targedau: **blwyddyn un – cynnig hyfforddiant ymwybyddiaeth o fyddarddallineb i wasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol**
- Cefnogi a monitro'r broses o weithredu Safonau Cymru Gyfan ar gyfer Darparu Gwybodaeth Hygyrch i Bobl â Nam ar eu Synhwyrau a Chyfathrebu â Hwy yn y GIG.
  - Targed: **blwyddyn un – llunio pecyn gwybodaeth i bobl ddall a rhannol ddall am y Safonau a'r hyn a ddisgwylir gennym; helpu pobl ddall a rhannol ddall i roi adborth ar eu profiadau a chael eu cynnwys yn adroddiad blynyddol Canolfan Cydraddoldeb a Hawliau Dynol y GIG ar y Safonau**
- Gweithio gyda Gweithredu ar Golli Clyw Cymru ar ei brosiect cynhwysiant nam ar y synhwyrau i ddarparwyr gwasanaethau.
  - Targed: **blwyddyn un – cyfrannu at y gwaith o ddatblygu'r prosiect drwy ei grŵp cyfeirio rhanddeiliaid**
- Gweithio mewn partneriaeth â Choleg Brenhinol y Meddygon Teulu, Strategaeth Golwg y DU a phartneriaid perthnasol eraill, fel rhan o ymrwymiad Coleg Brenhinol y Meddygon Teulu i sicrhau bod iechyd llygaid yn flaenoriaeth glinigol, cynyddu ymwybyddiaeth ymhlith meddygon teulu mewn perthynas ag atal achosion o golli golwg y gellir eu hosgoi a chefnogi pobl ddall a rhannol ddall.
  - Targed: **blwyddyn un – cyfrannu at y gwaith o ddatblygu cynllun gweithredu ar gyfer prosiect Coleg Brenhinol y Meddygon Teulu i sicrhau bod iechyd llygaid yn flaenoriaeth glinigol yng Nghymru**

- Codi ymwybyddiaeth ymhlith Gwasanaethau Gyrfaoedd ac Ymgynghorwyr Cyflogaeth i'r Anabl o anghenion pobl sy'n colli eu golwg a'r gwasanaethau cymorth sydd ar gael ar eu cyfer.
  - Targedau: **blwyddyn un – lledaenu gwybodaeth i bob Canolfan Gwaith a chanolfan Gyrfa Cymru**

Ein nod

Sicrhau y caiff pobl sy'n colli eu golwg a'u teulu a'u gofalwyr eu cynnwys yn y gwaith o ddatblygu, cynllunio a darparu gwasanaethau er mwyn sicrhau eu bod yn diwallu anghenion pobl sy'n colli eu golwg.

Amcanion perthnasol Cynllun Cyflawni Cymru ar gyfer Gofal Iechyd Llygaid Llywodraeth Cymru

- Datblygu a systemeiddio'r defnydd o fesurau canlyniadau a phrofiadau cleifion mewn gofal sylfaenol, gofal eilaidd a gwasanaethau cymdeithasol.
- Sicrhau bod proses dryloyw ar waith ar gyfer ystyried a chymhwyso canllawiau'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE) sy'n cynnwys offthalmolegwyr a chleifion.

Bydd Grŵp Gweithredu Strategaeth Golwg Cymru yn gwneud y canlynol

- Helpu defnyddwyr gwasanaethau i gael lle ar fforymau a chyrff gwneud penderfyniadau drwy godi ymwybyddiaeth a hyfforddi.
  - Targedau: **blwyddyn un: recriwtio a hyfforddi un gwirfoddolwr y mis ar gyfartaledd, a datblygu adnodd cyfathrebu ar y we**

Canlyniad Tri – Cymdeithas y gall pobl sy'n colli eu golwg gyfranogi'n llawn ynddi

Dros y pedair blynedd nesaf, byddwn yn gweithio i wneud y canlynol:

- gwella agweddau, ymwybyddiaeth a chamau gweithredu ym maes addysg a chyflogaeth ac o fewn gwasanaethau eraill.
- sicrhau y gall plant a phobl ifanc â nam ar eu golwg gymryd eu lle mewn cymdeithas.
- gwella cydymffurfiaeth â deddfwriaeth cydraddoldeb.

Ein nod

Sicrhau y caiff pobl sy'n colli eu golwg yr un cyfle i gael gafael ar addysg a hyfforddiant galwedigaethol, gan gynnwys hyfforddiant a deunyddiau eraill mewn fformatau hygyrch. Dylai plant a phobl ifanc fod yn sicr y cânt afael ar y cwricwlwm academaidd a'r cwricwlwm sefydlu (sgiliau symudedd ac annibyniaeth) yn llawn yn ogystal â chyfle cyfartal. Dylai plant gael y cyfle i feithrin eu lles emosiynol a'u hyder yn eu galluoedd drwy gyfranogi'n llawn, gan gynnwys mewn gweithgareddau cymdeithasol, a bod mor annibynnol â phosibl yn ystod eu blynyddoedd cyn ysgol a thrwy gydol eu blynyddoedd ysgol. Dylai plant sy'n colli eu golwg ac sydd ag anableddau ychwanegol neu gymhleth gael yr addysg a'r gofal gorau posibl yn yr amgylchedd sy'n diwallu eu hanghenion orau. Dylai fod llwybrau clir i gefnogi plant (a'u teuluoedd) wrth bontio rhwng addysg gynradd ac addysg uwchradd, ac wrth ddechrau yn yr ysgol am y tro cyntaf.

Bydd Grŵp Gweithredu Strategaeth Golwg Cymru yn gwneud y canlynol

- Rhoi cyngor a chymorth i blant dall a rhannol ddall a'u teuluoedd, er mwyn gwella eu hyder a'u hannibyniaeth i'r eithaf a'u helpu i gael gafael ar yr amrywiaeth o wasanaethau statudol a gwasanaethau eraill y gall fod eu hangen.
  - Targed: **blwyddyn un – cynnal dau gyfarfod grŵp rhanddeiliaid; llunio gwybodaeth i rieni am ffynonellau cymorth**

- Datblygu cwrs sgiliau byw'n annibynnol ar gyfer pobl ifanc.
  - **Targed: blwyddyn un – ymgynghori â phobl ifanc ar gynnwys y cwrs**
- Annog y cyrff statudol perthnasol i fabwysiadu Llwybr Vision2020UK i Blant a Phobl Ifanc.
  - **Targedau: blwyddyn un – rhannu gwybodaeth ar draws sefydliadau colli golwg a chyfathrebu â chyrff statudol**
- Herio awdurdodau lleol nad ydynt yn darparu amgylcheddau dysgu hygyrch na deunyddiau dysgu hygyrch i blant dall a rhannol ddall.
  - **Targedau: blwyddyn un – monitro ymholiadau ac eirioli dros blant / herio awdurdodau lleol lle y bo'n briodol; hyrwyddo Llwybr Nam ar y Golwg**
- Ymgyrchu er mwyn sicrhau bod pob plentyn dall a rhannol ddall yn gallu cael gafael ar hyfforddiant sefydlu/adsefydlu a chymorth arbenigol gan athro cymwysedig dysgwyr â nam ar eu golwg.
  - **Targed: blwyddyn un – llunio adroddiad ymgyrch ar ddarpariaeth cymorth athrawon cymwysedig plant â nam ar eu golwg yng Nghymru**
- Monitro argaeledd cymorth emosiynol i blant a phobl ifanc dall a rhannol ddall, ac ymgyrchu dros welliannau lle y bo angen.
  - **Targed: blwyddyn un – sefydlu gwasanaethau sylfaenol ym maes iechyd, addysg a gwasanaethau cymdeithasol a llunio adroddiad**
- Parhau i geisio cymorth i ddatblygu prosiect "Mwy na Golwg" a fyddai'n galluogi pobl ddall a rhannol ddall i gael gafael ar addysg bellach ac addysg uwch, hyfforddiant a sgiliau cyflogaeth, yn ogystal â hyfforddiant symudedd a sgiliau bywyd beunyddiol, mewn canolfan breswyl bwrpasol yng Nghymru.
  - **Targed: blwyddyn un – helpu coleg Castell-nedd Port Talbot i wneud cais am arian**
- Gweithio i godi ymwybyddiaeth ymhlith darparwyr addysg a gwneuthurwyr polisi o bwysigrwydd cymorth arbenigol, deunyddiau hygyrch a chyfarpar/ technoleg, a chymryd camau i wella perfformiad.
  - **Targed: blwyddyn un – dylanwadu ar y gwaith o ddatblygu deddfwriaeth AAA newydd yng Nghymru**
- Datblygu a darparu gwasanaeth sefydlu gwerth ychwanegol er mwyn gwella a chefnogi darpariaeth statudol i blant a phobl ifanc yng Nghymru.
  - **Targedau: blwyddyn un – mapio lefelau gwasanaeth ledled Cymru; recriwtio staff dan hyfforddiant**

Ein nod

Sicrhau bod llwybr pontio clir a di-dor o wasanaethau plant a phobl ifanc i wasanaethau oedolion, gan sicrhau y gall pobl ifanc gyflawni eu potensial a meithrin eu hyder a'u lles emosiynol; ac na chollir hawliau i fudd-daliadau a chymorth yn ystod y broses bontio.

Bydd Grŵp Gweithredu Strategaeth Golwg Cymru yn gwneud y canlynol

- Rhoi cymorth i bobl sy'n pontio o ysgol i addysg bellach, addysg uwch a chyflogaeth.
  - Targed: **blwyddyn un – rhoi cymorth un i un i bobl ifanc 14-25 oed yn ôl yr angen**
- Cyhoeddi canllaw ar-lein i bobl ifanc a'u teuluoedd ar y cymorth statudol ac anstatudol sydd ar gael wrth bontio i wasanaethau oedolion.
  - Targed: **blwyddyn un – llunio canllaw ar-lein**
- Gweithio gyda phobl ifanc a gwasanaethau statudol er mwyn sicrhau bod gwaith cynllunio cyfnod pontio yn ystyried anghenion a dyheadau'r unigolyn.
  - Targed: **blwyddyn un – rhoi cymorth unigoledig yn ôl yr angen**

Ein nod

Sicrhau y gall pob person dall a rhannol ddall gael gafael ar wasanaethau i'w helpu i weithio, neu gadw ei swydd ar ôl colli ei olwg. Dylai hyn gynnwys cymorth i gyflogwyr a hyrwyddo cynllun Mynediad at Waith a chynlluniau cyfatebol sy'n helpu i gyflenwi technoleg gynorthwyol a systemau cymorth.

Bydd Grŵp Gweithredu Strategaeth Golwg Cymru yn gwneud y canlynol

- Rhoi cymorth i bobl ddall a rhannol ddall sydd am ddatblygu eu sgiliau cyflogadwyedd a gwneud cais am waith.
  - Targed: **blwyddyn un – cynnal gwasanaeth cyflogaeth arbenigol sy'n cynnig clybiau swyddi a chymorth un i un**
- Helpu pobl mewn gwaith i gadw eu swyddi ac addasu i ffyrdd newydd o weithio ar ôl colli eu golwg
  - Targed: **blwyddyn un – cynnal gwasanaeth cyflogaeth arbenigol sy'n cynnig cymorth un i un i unigolion a chyflogwyr**

- Codi ymwybyddiaeth ymhlith Gwasanaethau Gyrfaoedd ac Ymgynghorwyr Cyflogaeth i'r Anabl o anghenion pobl sy'n colli eu golwg a'r gwasanaethau cymorth sydd ar gael ar eu cyfer.
  - **Targed: blwyddyn un – lledaenu gwybodaeth i bob Canolfan Gwaith a chanolfan Gyrfa Cymru**
- Codi ymwybyddiaeth ymhlith cyflogwyr a cheiswyr gwaith o'r modd y gall Mynediad at Waith a chynlluniau eraill gan y Llywodraeth helpu i'w cefnogi.
  - **Targed: blwyddyn un – gwaith ymgysylltu â chyflogwyr gyda chwmnïau ledled Cymru**
- Sicrhau cyfleoedd profiad gwaith â chymorth i bobl ifanc ddall a rhannol ddall.
  - **Targed: blwyddyn un – helpu i gyflawni prosiect Cipolwg ar y Dyfodol**
- Rhoi hyfforddiant a chymorth symudedd er mwyn galluogi pobl ddall a rhannol ddall i fynd i'r gwaith ac oddi yno, ac i symud o amgylch y gweithle.
  - **Targed: blwyddyn un – cynorthwyo pobl ifanc drwy brosiect Cipolwg ar y Dyfodol**
- Casglu astudiaethau achos o arfer da ac arfer gwael er mwyn gwella safonau asesu a chymorth i bobl sy'n colli eu golwg mewn cyflogaeth.
  - **Targed: blwyddyn un – cwblhau adroddiad**
- Gwella ymwybyddiaeth ymhlith cyflogwyr a darpar gyflogwyr o gynllun Mynediad at Waith drwy hyfforddiant a chyfathrebu.
  - **Targedau: blwyddyn un – anfon rhifyn arbennig o "Roundup" ar gyflogaeth i'r 300 o gwmnïau mwyaf blaenllaw yng Nghymru; codi ymwybyddiaeth o gynllun Mynediad at Waith drwy rwydwaith o aelodau**
- Hyrwyddo'r broses o fabwysiadu'r Fframwaith Gweithredu ar gyfer Byw'n Annibynnol a monitro a dylanwadu ar y ffordd y caiff ei weithredu.
  - **Targed: blwyddyn un – cyflwyno papur ar ran grŵp Camau Nesaf i'r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi**

Ein nod

Sicrhau y gall pobl ddall a rhannol ddall hawlio'r holl fudd-daliadau lles y mae ganddynt yr hawl i'w cael.

Bydd Grŵp Gweithredu Strategaeth Golwg Cymru yn gwneud y canlynol

- Rhoi cyngor, gwybodaeth i bobl ddall a rhannol ddall a'u helpu i gael gafael ar fudd-daliadau lles.
  - Targed: **blwyddyn un – cynorthwyo 500 o bobl**
- Ymwneud â'r gwaith o ddatblygu Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi Llywodraeth Cymru yn barhaus, gan gynnwys yr Adolygiad o Wasanaethau Cynghori.
  - Targed: **blwyddyn un – mynychu cyfarfodydd y Fforwm Gwasanaethau Cynghori Annibynnol, er mwyn cyfrannu materion sy'n ymwneud â cholli golwg**
- Cyfeirio pobl sy'n colli eu golwg at yr asiantaethau perthnasol.
  - Targed: **blwyddyn un – datblygu porth ar-lein er mwyn darparu gwybodaeth a gwasanaeth atgyfeirio**

Ein nod

Sicrhau y gall pobl sy'n colli eu golwg gael gafael ar wybodaeth yn eu dewis fformat.

Bydd Grŵp Gweithredu Strategaeth Golwg Cymru yn gwneud y canlynol

- Cefnogi a monitro'r broses o weithredu Safonau Cymru Gyfan ar gyfer Darparu Gwybodaeth Hygyrch i Bobl â Nam ar eu Synhwyrau a Chyfathrebu â Hwy yn y GIG.
  - Targedau: **blwyddyn un – llunio pecyn gwybodaeth i bobl ddall a rhannol ddall am y Safonau a'r hyn a ddisgwylir gennym; helpu pobl ddall a rhannol ddall i roi adborth ar eu profiadau a chael eu cynnwys yn adroddiad blynyddol Canolfan Cydraddoldeb a Hawliau Dynol y GIG ar y Safonau**
- Parhau i godi ymwybyddiaeth ymhlith pobl sy'n colli eu golwg o'u hawl i gael gwybodaeth hygyrch o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.
  - Targedau: **blwyddyn un – hyrwyddo cylchgrawn Roundup a gweithio gydag unigolion, grwpiau a chymdeithasau**

- Gweithio gyda Gweithredu ar Golli Clyw Cymru ar ei brosiect cynhwysiant nam ar y synhwyrau i ddarparwyr gwasanaethau.
  - **Targed: blwyddyn un – gweithio gyda Gweithredu ar Golli Clyw Cymru er mwyn datblygu ei brosiect a'i roi ar waith**
- Ymgyrchu er mwyn gwella'r gallu i gael gafael ar wybodaeth awdurdodau lleol, gan gynnwys ystyried y potensial ar gyfer safonau sy'n cyfateb i Safonau Cymru Gyfan ar gyfer Darparu Gwybodaeth Hygyrch i Bobl â Nam ar eu Synhwyrau a Chyfathrebu â Hwy yn y GIG.
  - **Targed: blwyddyn un – gweithio gyda Gweithredu ar Golli Clyw Cymru er mwyn ystyried cwmpas ei brosiect Cynhwysiant Nam ar y Synhwyrau, a nodi bylchau posibl lle y gall fod angen gwneud rhagor o waith**
- Lobïo cynghorau i ddeall yr angen am wybodaeth hygyrch a sicrhau ei bod yn cwmpasu'r holl wasanaethau a gynigir gan gynghorau a'u darparwyr contract.
  - **Targed: blwyddyn un – llunio adroddiad ar wybodaeth hygyrch i'w gyhoeddi ym mis Ebrill 2015**
- Annog y broses o rannu gofynion dinasyddion am wybodaeth hygyrch ar draws pob adran, nid o fewn gwasanaethau cymdeithasol yn unig.
  - **Targed: gwneud cynnydd ym mlwyddyn dau**
- Hyrwyddo'r broses o fabwysiadu'r Fframwaith Gweithredu ar gyfer Byw'n Annibynnol a monitro a dylanwadu ar y ffordd y caiff ei weithredu.
  - **Targed: blwyddyn un – cyflwyno papur ar ran grŵp Camau Nesaf i'r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi**

Ein nod

Sicrhau bod hyfforddiant i ddefnyddio technolegau newydd ar gael, a'i fod yn fforddiadwy ac yn barhaus.

Bydd Grŵp Gweithredu Strategaeth Golwg Cymru yn gwneud y canlynol

- Helpu pobl ddall a rhannol ddall i fynd ar-lein a defnyddio technoleg ddigidol.
  - **Targed: blwyddyn un – cynorthwyo 725 o unigolion**
- Helpu pobl fyddarddall i ddefnyddio technoleg newydd.
  - **Targedau: blwyddyn un – cynnig y cyfle i bob aelod o DeafBlind Cymru ddysgu am dechnoleg llechen newydd; cynnal sgyrsiau ar dechnoleg hygyrch i bob grŵp cymorth cymheiriaid a chymdeithasol DeafBlind Cymru rhoi cymorth cynhwysiant digidol**

un i un i 20 o aelodau; llunio cyfres o flogiau ar ddefnyddio technoleg newydd

- Casglu a lledaenu gwybodaeth am effaith cynhwysiant/allgáu digidol ar bobl ddall a rhannol ddall.
  - Targed: **blwyddyn un – llunio adroddiad ar y cysylltiadau rhwng lles a'r defnydd o dechnoleg**

Ein nod

Sicrhau bod gweithgareddau hamdden yn gwbl hygyrch i bawb sy'n colli eu golwg, gan gynnwys chwaraeon, ymarfer corff, hobïau a'r celfyddydau gweledol a pherfformio.

Bydd Grŵp Gweithredu Strategaeth Golwg Cymru yn gwneud y canlynol

- Gweithio gydag awdurdodau lleol, ac yn genedlaethol gyda Chyngor Celfyddydau Cymru a Croeso Cymru, er mwyn codi ymwybyddiaeth o anghenion pobl ddall a rhannol ddall a cheisio gwella hygyrchedd lleoliadau hamdden, chwaraeon a'r celfyddydau.
  - Targed: **blwyddyn un – gweithio gyda Chwaraeon Anabledd Cymru, Croeso Cymru ac Anabledd Cymru er mwyn ystyried cwmpas prosiect**
- Gweithio gyda Chwaraeon Anabledd Cymru er mwyn ystyried y rhwystrau a wynebir gan bobl sy'n colli eu golwg sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon a hamdden.
  - Targed: **gwneud cynnydd ym mlwyddyn dau**
- Gwneud gwaith dilynol mewn perthynas â'r arolwg o'r Celfyddydau yng Nghymru a Nam ar y Golwg yn 2002.
  - Targedau: **gwneud cynnydd ym mlwyddyn dau**
- Gweithio gyda swyddogion chwaraeon lleol ym Mhen-y-bont ar Ogwr a chynnig hyfforddiant iddynt.
  - Targed: **blwyddyn un – rhoi hyfforddiant arbenigol i dimau datblygu chwaraeon a hyfforddwyr cymunedol**

Ein nod

Sicrhau bod gwasanaethau cyhoeddus, fel gwasanaethau iechyd, tai a'r cyngor, yn gwbl hygyrch i bobl sy'n colli eu golwg.

Bydd Grŵp Gweithredu Strategaeth Golwg Cymru yn gwneud y canlynol[H4]

- Hyrwyddo'r broses o fabwysiadu safonau Visibly Better RNIB Cymru, yn enwedig ymhlith datblygwyr sy'n gweithio i awdurdodau iechyd ac awdurdodau lleol.
  - **Targed: blwyddyn un – nodi cyfleoedd i weithio gyda byrddau iechyd, gan gynnwys drwy ymgysylltu â'u gwaith ar Safonau Cymru Gyfan ar gyfer Darparu Gwybodaeth Hygyrch i Bobl â Nam ar eu Synhwyrau a Chyfathrebu â Hwy yn y GIG**

- Gweithio gyda Chomisiynydd Pobl Hŷn Cymru er mwyn sicrhau y caiff hygyrchedd i bobl sy'n colli eu golwg ei gynnwys yn eu hadolygiad o ddarpariaeth cartrefi gofal.
  - **Targed: blwyddyn un – ymgysylltu â staff sy'n gweithio ar yr adolygiad, er mwyn rhoi'r sail dystiolaeth angenrheidiol iddynt**

- Gweithio gydag AGGCC er mwyn sicrhau y caiff anghenion pobl sy'n colli eu golwg eu cynnwys yn ei phrosesau monitro ac arolygu.
  - **Targedau: blwyddyn un – cynnwys colli'r synhwyrau mewn arolygiadau AGGCC a hyfforddi archwilwyr**

- Cefnogi a monitro'r broses o weithredu Safonau Cymru Gyfanar gyfer Darparu Gwybodaeth Hygyrch i Bobl â Nam ar eu Synhwyrau a Chyfathrebu â Hwy yn y GIG.
  - **Targedau: blwyddyn un – llunio pecyn gwybodaeth i bobl ddall a rhannol ddall am y Safonau a'r hyn a ddisgwylir gennym; helpu pobl ddall a rhannol ddall i roi adborth ar eu profiadau a chael eu cynnwys yn adroddiad blynyddol Canolfan Cydraddoldeb a Hawliau Dynol y GIG ar y Safonau**

- Ymgyrchu er mwyn gwella'r gallu i gael gafael ar wybodaeth awdurdodau lleol, gan gynnwys ystyried y potensial ar gyfer safonau sy'n cyfateb i Safonau Cymru Gyfan ar gyfer Darparu Gwybodaeth Hygyrch i Bobl â Nam ar eu Synhwyrau a Chyfathrebu â Hwy yn y GIG.
  - **Targed: blwyddyn un – gweithio gyda Gweithredu ar Golli Clyw Cymru er mwyn ystyried cwmpas ei brosiect Cynhwysiant Nam ar y Synhwyrau, a nodi bylchau posibl lle y gall fod angen gwneud rhagor o waith**

- Dylanwadu ar gynghorau i ddeall yr angen am wybodaeth hygyrch a sicrhau ei bod yn cwmpasu'r holl wasanaethau a gynigir gan gynghorau a'u darparwyr contract.
  - Targed: **blwyddyn un – llunio adroddiad ar wybodaeth hygyrch i'w gyhoeddi ym mis Ebrill 2015**
- Annog y broses o rannu gofynion dinasyddion unigol am wybodaeth hygyrch ar draws pob adran, nid o fewn gwasanaethau cymdeithasol yn unig.
  - Targed: **gwneud cynnydd ym mlwyddyn dau**
- Gweithio gyda Gweithredu ar Golli Clyw Cymru ar ei brosiect cynhwysiant nam ar y synhwyrau i ddarparwyr gwasanaethau.
  - Targed: **blwyddyn un – gweithio gyda Gweithredu ar Golli Clyw Cymru er mwyn datblygu ei brosiect a'i roi ar waith**
- Hyrwyddo'r broses o fabwysiadu'r Fframwaith Gweithredu ar gyfer Byw'n Annibynnol a monitro a dylanwadu ar y ffordd y caiff ei weithredu.
  - Targed: **blwyddyn un – cyflwyno papur ar ran grŵp Camau Nesaf i'r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi**

Ein nod

Sicrhau bod pobl sy'n colli eu golwg yn gallu symud o gwmpas yn rhydd, yn ddiogel ac yn annibynnol, drwy weithredu egwyddorion dylunio cynhwysol a thrwy gynnwys pobl sy'n colli eu golwg a sefydliadau ym maes colli golwg ar gam cychwynnol datblygiadau newydd.

Bydd Grŵp Gweithredu Strategaeth Golwg Cymru yn gwneud y canlynol

- Cyfrannu at y gwaith o ddatblygu deddfwriaeth gynllunio newydd yng Nghymru, er mwyn cynyddu ei photensial i wella hygyrchedd i bobl ddall a rhannol ddall.
  - Targed: **blwyddyn un – ymateb i ganllawiau Teithio Llesol ac ymgynghoriadau ar y Bil Cynllunio, gyda'r nod penodol o atgyfnerthu canllawiau ar fannau a rennir a chadw Datganiadau Dylunio a Mynediad (neu ddatganiadau cyfatebol priodol)**

- Hyrwyddo'r broses o fabwysiadu safonau Visibly Better RNIB Cymru, yn enwedig ymhlith datblygwyr sy'n gweithio i awdurdodau iechyd ac awdurdodau lleol.
  - **Targed: blwyddyn un – nodi cyfleoedd i weithio gyda byrddau iechyd, gan gynnwys drwy ymgysylltu â'u gwaith ar Safonau Cymru Gyfan ar gyfer Darparu Gwybodaeth Hygyrch i Bobl â Nam ar eu Synhwyrau a Chyfathrebu â Hwy yn y GIG**
- Gweithio gyda'r Access Association yng Nghymru er mwyn hyrwyddo arfer gorau ym maes dylunio cynhwysol.
  - **Targed: blwyddyn un – cyflwyno erthyglau ac astudiaethau achos i'r Access Association**
- Ystyried mentrau i egluro Asesiadau o Effaith ar Gydraddoldeb a datblygu systemau i gynnwys pobl ddall a rhannol ddall mewn ymgynghoriadau lleol
  - **Targed: blwyddyn un – meithrin cydberthnasau â swyddogion mynediad a chydraddoldeb awdurdod lleol ac aelodau etholedig sy'n eiriolwyr cydraddoldeb**
- Helpu pobl ddall a rhannol ddall i weithio gyda Grwpiau Mynediad lleol, a rhoi hyfforddiant ar herio / cyfrannu at benderfyniadau mewn perthynas â chynllunio, dylunio a'r amgylchedd adeiledig.
  - **Targed: blwyddyn un – parhau i gyflwyno hyfforddiant rhwydwaith cefnogwyr ymgyrchoedd ledled Cymru**
- Gweithio gydag Anabledd Cymru er mwyn cefnogi ei becyn cymorth Cynllunio ar gyfer Dylunio Cynhwysol.
  - **Targed: blwyddyn un – gweithio gydag Anabledd Cymru er mwyn gwella hygyrchedd ei becyn cymorth**
- Gweithio gydag awdurdodau lleol er mwyn sicrhau eu bod yn cynnwys pobl ddall a rhannol ddall mewn datblygiadau newydd, a bod eu dulliau ymgynghori yn hygyrch.
  - **Targed: blwyddyn un – dylanwadu ar y broses o ddatblygu canllawiau ar y Bil Cynllunio a'r Ddeddf Teithio Llesol**
- Gweithio gyda phenseiri a dylunwyr trefol er mwyn codi ymwybyddiaeth o ofynion mynediad pobl ddall a rhannol ddall.
  - **Targed: blwyddyn un – cynllunio a threfnu cynhadledd, i'w chynnal ym mis Ebrill 2015**

- Hyrwyddo'r broses o fabwysiadu'r Fframwaith Gweithredu ar gyfer Byw'n Annibynnol a monitro a dylanwadu ar y ffordd y caiff ei weithredu.
  - Targed: **blwyddyn un – cyflwyno papur ar ran grŵp Camau Nesaf i'r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi**
- Helpu pobl ddall a rhannol ddall i ymgyrchu dros amgylcheddau stryd ac adeiladau mwy hygyrch.
  - Targedau: **blwyddyn un – datblygu cyfres o becynnau cymorth i ymgyrchwyr lleol; dylanwadu ar y broses o ddatblygu canllawiau ar y Bil Cynllunio a'r Ddeddf Teithio Llesol**
- Helpu defnyddwyr gwasanaethau i gael lle ar fforymau a chyrff gwneud penderfyniadau drwy godi ymwybyddiaeth a rhoi hyfforddiant cyfranogi.
  - Targed: **blwyddyn un: recriwtio a hyfforddi un gwirfoddolwr y mis ar gyfartaledd, a datblygu adnodd cyfathrebu ar y we**
- Helpu i ddatblygu canllawiau mewn perthynas â Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013.
  - Targed: **blwyddyn un – ymateb i ymgynghoriad ar y canllawiau**

Ein nod

Sicrhau bod cludiant cyhoeddus yn gwbl hygyrch i bobl sy'n colli eu golwg, gan gynnwys cyfleusterau archebu a thocynnau a chyfnewidfeydd cludiant, yn ogystal â darparu technoleg gwybodaeth amser real fel systemau gwybodaeth sain/gweledol ar fysiau.

Bydd Grŵp Gweithredu Strategaeth Golwg Cymru yn gwneud y canlynol

- Gweithio gydag awdurdodau lleol er mwyn sicrhau y caiff anghenion a safbwyntiau teithwyr dall a rhannol ddall eu hystyried.
  - Targed: **blwyddyn un – gweithio gyda Llywodraeth Cymru er mwyn datblygu pecyn cymorth newydd i awdurdodau lleol**
- Ymgyrchu dros gyflwyno mwy o fysiau â gwasanaeth cyhoeddiadau clywedol ledled Cymru.
  - Targedau: **blwyddyn un – hyrwyddo arfer gorau ymhlith gweithredwyr bysiau a chynllunio gweithgareddau i roi rhagor o gymorth i'r cyhoedd**
- Ymgyrchu dros weithredu rheoliadau hyfforddiant gyrwyr bysiau yr UE.
  - Targed: **blwyddyn un – dylanwadu ar Grŵp Cynghori ar Bolisi Bysiau Llywodraeth Cymru a cheisio cymorth ganddo**

- Gweithio gyda chyngor sgiliau Pobl yn Gyntaf er mwyn dylanwadu ar y broses o ddatblygu hyfforddiant gyrwyr.
  - **Targed:blwyddyn un: llunio potensial ar gyfer gwaith yn y dyfodol**
- Ymgyrchu er mwyn i'r risgiau i ddiogelwch sy'n gysylltiedig â cherbydau tawel gael eu cydnabod wrth ddatblygu cerbydau hybrid.
  - **Targed: blwyddyn un: llunio potensial ar gyfer gwaith yn y dyfodol**
- Gweithio gyda Traveline Cymru, awdurdodau lleol a darparwyr cludiant er mwyn hyrwyddo gwybodaeth hygyrch, gywir ac amserol am gludiant.
  - **Targedau: blwyddyn un – cyfarfod â Traveline a gwerthuso hygyrchedd presennol i wybodaeth**
- Helpu pobl ddall a rhannol ddall i ymgyrchu dros gludiant cymunedol a chyhoeddus mwy hygyrch.
  - **Targedau: blwyddyn un – trefnu cyfres o ddigwyddiadau Cyfnewid â Mi; datblygu camau gweithredu ar gyfer rhwydwaith cefnogwyr ymgyrchoedd**
- Hyrwyddo'r broses o fabwysiadu'r Fframwaith Gweithredu ar gyfer Byw'n Annibynnol a monitro a dylanwadu ar y ffordd y caiff ei weithredu.
  - **Targedau: blwyddyn un – cyflwyno papur ar ran grŵp Camau Nesaf i'r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi**

Rhestr talfyriadau

AAA
Anghenion Addysgol Arbennig

AGGCC
Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru

DRSSW
Gwasanaeth Sgrinio ar gyfer Retinopatheg Diabetig Cymru.

ECLO
Swyddog Cyswllt Clinig y Llygaid (staff sy'n helpu cleifion clinig y llygaid i gael gafael ar y cymorth emosiynol ac ymarferol sydd eu hangen arnynt ar ôl iddynt golli eu golwg)

EHEW
Archwiliadau Iechyd Llygaid yng Nghymru (archwiliad estynedig o'r llygaid a ddarperir gan optometryddion i'r rheini sy'n wynebu risg o golli eu golwg)

FOO
Ffocws ar Offthalmoleg (ffrwd gwaith a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru a ddatblygodd lwybrau clinigol newydd ar gyfer clefydau penodol y llygaid)

GOS
Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol (mae optometryddion yn darparu profion golwg am ddim i blant, pobl ifanc a'r rheini ar incwm isel o dan y contract hwn).

HES
Gwasanaethau Llygaid mewn Ysbyty

LVSW
Gwasanaeth Golwg Gwan Cymru (gwasanaeth a ddarperir gan optometryddion er mwyn cynghori pobl â nam ar eu golwg ar sut i reoli eu cyflwr llygaid a darparu cymhorthion bywyd beunyddiol addas fel goleuadau a chwyddwydrau).

NICE
Y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal.

ODTC
Y Ganolfan Diagnosteg a Thriniaeth Offthalmig.

QTVI
Athrawon Cymwysedig Plant â Nam ar eu Golwg

RCGP
Coleg Brenhinol y Meddygon Teulu

WECS
Gwasanaeth Gofal Llygaid Cymru (term mantell ar gyfer Gwasanaeth Golwg Gwan Cymru, Gwasanaeth Sgrinio ar gyfer Retinopatheg Diabetig Cymru, Cynllun Atgyfeirio i Gael Gofal Llygaid mewn Achosion Aciwt ac Archwiliadau Iechyd Llygaid yng Nghymru).

Aelodau Grŵp Gweithredu Strategaeth Golwg Cymru

Access Design Solutions UK Ltd

Bus Users UK

Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru

Cŵn Tywys Cymru

Cyngor Cymru i'r Deillion

Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

Cymdeithas Orthoptig Prydain ac Iwerddon

DeafBlind Cymru

Fforwm Swyddogion Adsefydlu Cymru

Llywodraeth Cymru

Optometreg Cymru

RNIB Cymru

Sight Cymru

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â:

**Ysgrifenyddiaeth Grŵp Gweithredu Strategaeth Golwg Cymru,
RNIB Cymru, Cwrt Jones, Stryd Womanby, Caerdydd, CF10 1BR**

029 2082 8500

walesvisionstrategy@rnib.org.uk